



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

Ymgynghoriad | Cynllunio ar gyfer Isadeiledd Ynni Newydd

Adolygu Datganiadau Polisi Cenedlaethol
Ynni EN-1 i EN-6

Dyddiad cau: 29 Tachwedd 2021



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi canfod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom at: energyNPS@beis.gov.uk

Cynnwys

Gwybodaeth gyffredinol _____	4
Pam yr ydym yn ymgynghori _____	4
Manylion ymgynghori _____	4
Sut i ymateb _____	6
Cyfrinachedd a diogelu data _____	6
Sicrwydd ansawdd _____	7
Cyflwyniad _____	8
Pennod 1: Cefndir _____	10
Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) ynni? _____	10
Adolygiad o'r NPS ynni presennol _____	10
Trefniadau trawsnewidiol _____	11
Diwygiad cynllunio _____	12
NPS Ynni Trosfwaol Drafft (EN-1) _____	13
Cefndir _____	13
EN-1 Drafft _____	13
NPS Ynni Drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol, Ynni Adnewyddadwy, Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew, Rhwydweithiau Trydan (EN-2 i EN-5) _____	17
EN-2 Drafft _____	17
EN-3 Drafft _____	18
EN-4 Drafft _____	20
EN-5 Drafft _____	20
Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar gyfer EN-1 i EN-5 _____	23
Cefndir _____	23
Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) _____	23
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) _____	24
Sylwadau eraill _____	26
Archwiliad Seneddol _____	27
Camau nesaf _____	27
Cwestiynau ymgynghori _____	28

Gwybodaeth gyffredinol

Pam yr ydym yn ymgynghori

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) ynni angen adlewyrchu polisi ynni'r llywodraeth. Mae'r gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ynni wedi cael eu dynodi gan Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn 2011.

Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw canfod a yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni diwygiedig a gyflwynir yn addas at y diben h.y. a ydynt yn darparu fframwaith addas i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer isadeiledd ynni o bwys cenedlaethol.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn edrych am farnau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) a gynhaliwyd mewn perthynas â'r drafft Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni.

Manylion ymgynghori

Cyhoeddwyd: 06 Medi 2021

Ymateb erbyn: 29 Tachwedd 2021

Ymholiadau i: energyNPS@beis.gov.uk (*peidiwch ag anfon ymatebion ymgynghori i'r cyfeiriad hwn, gweler y manylion isod ar ymateb trwy Citizen Space*)

Cyfeirnod ymgynghori: Cynllunio ar gyfer Seilwaith Ynni Newydd | Adolygu Datganiadau Polisi Cenedlaethol Ynni EN-1 i EN-6

Cynulleidfaoedd:

Mae'r llywodraeth eisiau clywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall.

Maint tiriogaethol:

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithiol ledled Cymru, Lloegr, dyfroedd tiriogaethol cyfagos a'r Parth Ynni Adnewyddadwy (REZ) alltraeth (ac eithrio unrhyw ran lle mae gan Weinidogion yr Alban swyddogaethau).

Er mai dim ond mewn un ffordd y mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni yn cael effaith uniongyrchol (mewn perthynas â phiblinellau traws gwlad rhwng yr Alban a Lloegr neu Gymru) yn gyffredinol mae polisi ynni yn fater a neilltuwyd i Weinidogion y DU ac felly gall y dogfennau fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio yn yr Alban.

Adolygu Datganiadau Polisi Cenedlaethol Ynni EN-1 i EN-6

Yng Ngogledd Iwerddon, mae cydsyniadau cynllunio ar gyfer pob prosiect isadeiledd o bwys cenedlaethol, yn ogystal â'r mwyafrif o bolisi ynni, yn ddatganoledig i Weithredwr Gogledd Iwerddon.

Mae maint tiriogaethol pob Datganiad Polisi Cenedlaethol ynni yn cael ei nodi yn Rhan 1 o bob dogfen.

Sut i ymateb

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn trwy'r plattform e-ymgynggori ar-lein, Citizen Space.

Yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r llywodraeth eisiau clywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall. Wrth ymateb, nodwch os ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, gwnewch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y mae'n berthnasol, sut gwnaethoch chi lunio barn yr aelodau.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os caiff ei fframio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er bod croeso i sylwadau a thystiolaeth bellach hefyd. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ymresymiad a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiadau syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Mae ymgynghoriadau yn derbyn lefel uchel o ddiddordeb ar draws sawl sector. Mae defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn gymorth mawr i'n dadansoddiad o'r ymatebion, gan alluogi ystyried y materion a godwyd yn fwy effeithlon ac effeithiol. Felly, rydym yn annog yn gryf i ymatebion fod trwy Citizen Space. **Cysylltwch â ni os ydych chi'n bwriadu ymateb gan ddefnyddio dull arall.**

Ymatebwch ar-lein trwy: <https://beisgovuk.citizenspace.com/energy-development/energy-nps>

Rydym yn cynghori nad ydych yn anfon ymatebion trwy'r post i'r adran ar hyn o bryd, oherwydd efallai na fyddwn yn gallu cael mynediad atynt.

Cyfrinachedd a diogelu data

Gellir datgelu gwybodaeth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu cael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch wrthym, ond byddwch yn ymwybodol na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried gennym fel cais cyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl ddeddfau diogelu data cymwys. Gwelwch ein [polisi preifatrwydd](#).

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar [GOV.UK](https://gov.uk). Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau neu sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Sicrwydd ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r](#) llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch: beis.bru@beis.gov.uk.

Cyflwyniad

Dynodir Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) o dan y Ddeddf Cynllunio 2008 (y Ddeddf 2008) i ddarparu arweiniad i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gymhwysiad polisi llywodraethol wrth bennu caniatâd datblygu ar gyfer isadeiledd mawr. Eu swyddogaeth yw datgan yn glir sut mae'r polisi presennol yn berthnasol i gydsyniad datblygu, yn cael gwared ar drafod haeddiannau polisi'r llywodraeth o'r broses archwilio fel y gellir gwneud penderfyniadau ar sail ystyriaethau cynllunio yn unig. Mae NPSs yn berthnasol i seilwaith a ddiffinnir fel "Prosiect Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol" yn Neddf 2008.

Mae'r gyfres bresennol o NPSs ynni wedi'u dynodi gan Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn 2011¹, sef:

- Yr NPS trosfwaol (EN-1)
- Isadeiledd cynhyrchu trydan tanwydd ffosil (EN-2)
- Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy (EN-3)
- Isadeiledd cyflenwad nwy a phiblinellau nwy ac olew (EN-4)
- Isadeiledd Rhwydweithiau Trydan (EN-5)
- Cynhyrchiad Pŵer Niwclear (EN-6)

Mae The Energy White Paper Powering our Net Zero Future,² a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn cyflwyno gweledigaeth o sut rydym yn trawsnewid i ynni glân erbyn 2050. Mae'n sefydlu ein nod o symudiad pendant i ffwrdd o danwydd ffosil i dechnolegau ynni glân fel adnewyddadwyon, niwclear a hydrogen, yn unol â'n hamcanion i sicrhau bod ein cyflenwad ynni bob amser yn parhau i fod yn ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn gyson â'n targed sero net.

Mae cyflawni'r amcanion hyn yn gofyn am lawer iawn o isadeiledd ynni, ar raddfa fawr a bach. Mae'r papur gwyn yn dangos bod yr angen am y seilwaith ynni a nodir yn yr NPS ynni yn parhau, ac eithrio yn achos o gynhyrchiad glo sy'n wrthi yn cael ei ddileu'n raddol o'r system.

Yn y papur gwyn, ymrwymodd y llywodraeth i gwblhau adolygiad o'r NPS ynni presennol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r polisi ynni cyfredol, a'n bod yn parhau i gael fframwaith polisi cynllunio sy'n gallu darparu buddsoddiad yn y seilwaith sydd ei angen ar gyfer y trawsnewidiad i sero net.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure>

² <https://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future>

Adolygu Datganiadau Polisi Cenedlaethol Ynni EN-1 i EN-6

Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw canfod a yw'r NPS ynni diwygiedig a gyflwynir yn addas at y diben (h.y. a ydynt yn darparu fframwaith addas i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer isadeiledd ynni o bwys cenedlaethol).


Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn edrych am farnau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) a gynhaliwyd mewn perthynas â'r NPSs ynni drafft. Mae AoS yn ofynnol o dan y Ddeddf 2008 a'u bwriad yw helpu i sicrhau bod pob NPS yn cymryd sylw o ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy. Nod yr HRA yw asesu'r goblygiadau NPSs ar gyfer cynefinoedd gwarchoddedig.

Mae'r diagram isod yn egluro strwythur y pecyn o NPSs ynni drafft (EN-1 i EN-5), a'u dogfennau ategol, sy'n dod o dan yr ymgynghoriad hwn. Ni fydd EN-6, sydd ar hyn o bryd yn gosod allan drefn gynllunio a chydsyniadau ar gyfer prosiectau niwclear y gellir eu defnyddio cyn 2025, yn cael ei ddiwygio fel rhan o'r adolygiad hwn. Fel y cyfryw, nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Strwythur pecyn dogfen NPS ynni yn amodol ar ymgynghoriad:

Mae'r NPSs ynni drafft a'u dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wahân i'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'r holl ddogfennau ar gael ar-lein:

<https://www.gov.uk/government/consultations/planning-for-new-energy-infrastructure-review-of-energy-national-policy-statements>



Pennod 1: Cefndir

Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) ynni?

Mae'r NPSs yn nodi polisi ynni cenedlaethol ac yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad datblygu o dan Ddeddf 2008 ar gyfer Prosiect Seilwaith o Bwys Cenedlaethol (NSIPs) ynni. Mae EN-1 yn nodi'r achos angen am rai egwyddorion ar seilwaith ynni ac asesiad cyffredinol, tra bod y pum NPS arall yn nodi egwyddorion asesu technoleg-benodol. Rhaid i geisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer NSIPs ynni fod yn unol â'r NPSs perthnasol.

Perthnasedd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau

Mae'r NPSs yn darparu'r fframwaith y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau wneud penderfyniadau cyfreithiol cadarn ac amserol. Y ffordd y mae'r NPSs yn llywio penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a'r materion y mae'n ofynnol o dan Ddeddf 2008 i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth ystyried ceisiadau, wedi'u nodi yn Adrannau 1.1 a 4.1 o EN-1.

Perthnasedd i ymgeiswyr

Mae'r NPSs yn darparu'r wybodaeth gyfreithiol, polisi a thechnegol y dylai ymgeiswyr ei hystyried a'i hasesu o fewn eu ceisiadau.

Adolygiad o'r NPS ynni presennol

Cafodd yr NPS ynni eu 'dynodi' gyntaf yn 2011. Ym mis Rhagfyr 2020³ cyhoeddodd y llywodraeth adolygiad o'r NPS ynni o dan adran 6 o Ddeddf 2008 i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r polisiâu a nodir yn y Papur Gwyn Ynni a'n bod yn parhau i fod â fframwaith polisi cynllunio a all gefnogi'r isadeiledd sy'n ofynnol ar gyfer y trawsnewidiad i sero net. Y nod yw dynodi NPS wedi'i ddiweddarau erbyn diwedd 2021.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â chanllawiau ar broses adolygu'r NPS a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cymunedau Tai a Llywodraeth Leol⁴. Ystyriwyd pob NPS yn ei dro, gyda'r nod o ganfod cyfeiriadau anymochrol neu wedi dyddio at y fframwaith rheoleiddio neu bolisi. Lle nodwyd newid, ystyriwyd effaith debygol gwneud diwygiadau. Ochr yn ochr, ystyriwyd a oedd newidiadau sylweddol mewn amgylchiad yn gofyn am newidiadau ehangach i'r NPS. Yna

³ <https://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future>

⁴ <https://www.gov.uk/guidance/planning-act-2008-guidance-on-the-process-for-carrying-out-a-review-of-existing-national-policy-statements>

rhoddwyd ystyriaeth os a ddylid tynnu'r NPS yn ôl, ei ddiwygio neu aros fel y mae, yn unol â gofynion Adran 6 (5) Deddf 2008.

Penderfynodd yr adolygiad y dylid diwygio'r dogfennau EN-1 i EN-5 presennol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych am farnau ar y dogfennau diwygiedig EN-1 i EN-5, gyda'r nod o ddynodi unrhyw ddiwygiadau erbyn diwedd 2021. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn ar bob AoS a HRA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r NPSs diwygiedig.

Ar hyn o bryd mae EN-6 yn nodi'r drefn gynllunio a chydsynio ar gyfer prosiectau niwclear y gellir eu defnyddio cyn 2025. Mae adolygiad o EN-6 wedi dod i'r casgliad na fydd EN-6 yn cael ei ddiwygio gan nad oes unrhyw newidiadau o berthynas i'r amgylchiadau cyfyngedig y bydd yn cael effaith ynddo (gweler y Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar 7 Rhagfyr 2017)⁵. Gan nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i EN6, nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Bydd NPS newydd ar gyfer seilwaith cynhyrchu trydan niwclear y gellir ei ddefnyddio ar ôl 2025 yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r dirwedd polisi a thechnoleg newidiol ar gyfer niwclear, fel y nodir yn EN-1 para 3.3.40- 3.3.41.

Bydd EN-6 yn parhau i gael y rôl a nodwyd yn Ddatganiad Ysgrifenedig y Gweinidog 2017 yn ystod datblygiad unrhyw NPS niwclear newydd. Bydd yn parhau i gael effaith ar unrhyw seilwaith cynhyrchu trydan niwclear y gellir ei ddefnyddio cyn 2025, neu ar gyfer ceisiadau i newid caniatâd datblygu ar gyfer cynhyrchiad o'r fath. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth, asesiadau a datganiadau a allai barhau i fod yn bwysig ac yn berthnasol ar gyfer prosiectau a fydd yn cael eu defnyddio ar ôl 2025. Gall hyn gynnwys y prosiectau hynny sy'n mynd i mewn i archwiliad cyn dynodi unrhyw ddiwygiadau i EN-1 (fel yr amlinellir yn y darpariaethau trawsnewidiol yn EN-1 para 1.6.1) yn ogystal â'r rhai sy'n mynd i mewn i archwiliad ar ôl dynodi unrhyw ddiwygiadau i EN-1.

Mae'r Llywodraeth yn rhagweld ymgynghori ar ddull lleoli ar gyfer datblygiadau niwclear newydd y gellir eu defnyddio ar ôl 2025, fel y cam nesaf yn y broses i ddatblygu unrhyw NPS niwclear drafft newydd. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Trefniadau trawsnewidiol

Tra cynhelir yr adolygiad, mae'r gyfres gyfredol o NPS (neu ar gyfer datblygu niwclear y sefyllfa a nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar 7 Rhagfyr 2017)⁶ yn parhau i fod yn bolisi llywodraeth berthnasol ac mae EN-1 i 5 yn cael effaith at ddibenion Deddf 2008. Maent yn parhau i ddarparu sylfaen addas ar gyfer paratoi ceisiadau, gall yr Arolygiaeth Gynllunio

⁵ <https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2017-12-07/HCWS321>

⁶ <https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2017-12-07/HCWS321>

archwilio, a gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd datblygu.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y dylai'r gyfres wreiddiol o NPSs gael effaith ar gyfer unrhyw gais a dderbynnir ar gyfer archwiliad cyn dynodi'r diwygiadau i'r NPS. Felly dim ond ar ôl dynodi'r diwygiadau hynny y bydd yr NPS diwygiedig yn effeithiol mewn perthynas â'r ceisiadau hynny am gydsyniad datblygu a dderbynnir ar gyfer harchwiliad.

Diwygiad cynllunio

Mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i adeiladu Prydain gyda seilwaith o'r radd flaenaf. Yn ystod haf 2020, fe wnaethom sefydlu Cyrchlu Cyflenwi Seilwaith newydd, o'r enw 'Project Speed'. Bydd y cyrchlu, dan arweiniad y Canghellor, yn adolygu pob rhan o gylch bywyd y prosiect seilwaith ac yn canfod lle y gellid gwneud gwelliannau, gan ddatblygu pecyn cynhwysfawr o ddiwygiadau, gan gynnwys diwygiadau i gynllunio seilwaith. Mae diwygiadau i drefn NSIP a champau y mae'r llywodraeth yn eu cymryd i gyflymu a gwella cyflenwi seilwaith wedi'u nodi yn Pennod 5 'Building faster, better and greener' o'r Strategaeth⁷ Seilwaith Genedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

Bydd y Rhaglen yn:

- gosod uchelgais i dorri graddfeydd amser hyd at 50% ar gyfer rhai prosiectau sy'n ymuno â'r drefn NSIP o fis Medi 2023;
- sefydlu "tîm cyflymu" prosiect o arbenigwyr cynllunio i gyflymu prosiectau seilwaith trwy'r drefn NSIP; a
- monitro'r perfformiad o'r drefn NSIP, cydgysylltu ag adrannau perthnasol yr angen am adolygiad o'u NPSs a sicrhau ymgysylltiad effeithiol ag adrannau seilwaith, ymgynghorwyr statudol, yr Arolygiaeth Gynllunio a diwydiant.

⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/national-infrastructure-strategy>

NPS Ynni Trosfwaol Drafft (EN-1)

Cefndir

Mae'r NPS Ynni Trosfwaol (EN-1) yn ddogfen ymbarél, o dan y mae pob un o'r NPSs ynni sy'n weddill yn eistedd. Mae ganddo tri phrif rôl:

- i nodi sut y bydd y gyfres o NPSs ynni yn gweithio ac i egluro'r fframwaith o bolisi'r llywodraeth bresennol
- i nodi egwyddorion asesu ac effeithiau generig sy'n berthnasol i'r holl seilwaith ynni
- i sefydlu'r angen am seilwaith ynni newydd

Mae'r angen cyfredol am seilwaith ynni newydd wedi'i sefydlu yn yr EN-1 drafft yn gyffredinol, trwy edrych ar yr angen am gyflenwad ynni a chymysgedd amrywiol o gynhyrchiad trydan, a hefyd o ran yr angen am fathau penodol, carbon isel o seilwaith ynni. Mae EN-1 hefyd yn cynnwys gwybodaeth generig ar rai materion sy'n berthnasol ar draws mwy nag un math o seilwaith, megis egwyddorion asesu ac effeithiau.

EN-1 Drafft

Rhan 1 - Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o'r EN-1 drafft yn gyflwyniadol. Mae'n egluro rôl y ddogfen, ei pherthynas â dogfennau allweddol eraill, y seilwaith ynni y mae'n ei gwmpasu, ei gwmpas daearyddol a'r cyfnod dilysrwydd ac adolygiad a fwriadwyd.

Mae Rhan 1 yn egluro cwmpas yr NPSs. Lle bo'n berthnasol, bydd EN-1 yn cael effaith mewn cyfuniad â'r NPS technoleg-benodol priodol. Fodd bynnag, yn ymadael â'r gyfres wreiddiol o NPSs, gall EN-1 hefyd gael effaith ar ei ben ei hun mewn perthynas â rhai mathau o seilwaith nad oes NPS technoleg-benodol ar eu cyfer, megis Dal a Storio Carbon (CCS) a seilwaith hydrogen a mathau eraill o gynhyrchu carbon isel. Mae EN-1 hefyd yn gwneud yn glir ei fod yn cael effaith mewn perthynas â seilwaith ynni y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu cyfeirio i mewn i'r drefn NSIP o dan adran 35 o Ddeddf 2008. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol hwn yn caniatáu i'r NPSs gefnogi mathau newydd a datblygol o seilwaith ynni sy'n hanfodol ar gyfer ein trawsnewidiad i sero net.

Mae'r testun drafft wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r fframwaith rheoleiddio cyfredol. Mae'r testun hefyd yn cynnwys darpariaethau trawsnewidiol newydd sy'n berthnasol yn ystod ac yn dilyn adolygiad.

Rhan 2 - Polisi'r Llywodraeth a datblygiad seilwaith

Mae Rhan 2 o EN-1 drafft yn nodi polisi ynni a hinsawdd y llywodraeth, yn sefydlu'r cyd-destun lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer seilwaith ynni o bwys cenedlaethol.

Amlinellodd y Papur Gwyn Ynni, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, sut yr ydym yn bwriadu trawsnewid y system ynni, gan fynd i'r afael ag allyriadau wrth barhau i sicrhau cyflenwad diogel a dibynadwy, a biliau fforddiadwy ar gyfer cartrefi a busnesau. Mae'r NPS drafft wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu hyn.

Mae'r newidiadau yn y testun drafft yn cynnwys:

- Diweddarau ein targed o ostyngiadau allyriadau Nwy Tŷ Gwydr (GHG) o "o leiaf 80%" erbyn 2050 i sero net erbyn 2050, a 78% erbyn 2035 o'i gymharu â lefelau 1990.
- Nodi ein hamcanion i sicrhau bod ein cyflenwad ynni bob amser yn parhau i fod yn ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn gyson gyda sero net.
- Atgyfnerthu ein hymrwymiad i hybu twf a chynhyrchedd ar draws y DU cyfan; lefelu i fyny a chryfhau'r Undeb trwy fuddsoddi mewn ardaloedd gwledig, trefi a dinasoedd, o brosiectau cenedlaethol mawr i flaenoriaethau lleol; a chreu swyddi a diwydiannau newydd o ansawdd uchel.
- Bydd cadarnhau ein cymysgedd cynhyrchiad y dyfodol yn dod o ystod o ffynonellau gan gynnwys ynni adnewyddadwy, niwclear, hydrogen carbon isel; gyda defnydd gweddilliol o danwydd nwy naturiol heb ei drin ac olew crai ar gyfer gwres, trydan, trafnidiaeth a chymwysiadau diwydiannol, wrth inni drawsnewid. Bydd ein system ynni'r dyfodol hefyd yn defnyddio ystod o dechnolegau genedigol, data, a phrosiectau seilwaith arloesol gan gynnwys CCS, hyblygrwydd a thechnolegau lleihau tŷ gwydr.
- Trafodaeth ar ddatgarboneiddio pŵer a liferi allweddol i annog datgarboneiddio ymhellach.
- Trafodaeth ar ddiogelwch cyflenwad y DU a rôl y Farchnad Cynhwysedd.

Rhan 3 - Yr angen am seilwaith ynni newydd

Mae Rhan 3 o'r EN-1 drafft yn darparu manylion pellach am yr angen, a'r pwysigrwydd, am seilwaith ynni ar raddfa fawr newydd i gyflawni amcanion y llywodraeth.

Y technolegau hysbys sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas yr NPS yw gwynt alltraeth (gan gynnwys gwynt arnofiol), solar ffotofoltaidd, tonnau, ystod llanw, llif llanw, ynni o wastraff (gan gynnwys Technolegau Cyfnewid Datblygedig (ACTs)) gyda neu heb CCS, biomas gyda neu heb CCS, nwy naturiol gyda neu heb CCS, hydrogen carbon isel, niwclear ar raddfa fawr, adweithyddion modiwlaid bach, adweithyddion modiwlaid datblygedig, a gweithfeydd pŵer ymasiad a niwclear. Mae'r angen am yr holl fathau hyn o seilwaith wedi'i sefydlu fel angen brys.

Mae'r newidiadau yn y testun drafft yn cynnwys:

- Cael gwared ar yr angen am y cynhyrchiad o glo newydd a thrydan sy'n llosgi olew ar raddfa fawr.
- Esboniad o sut y gellir rhoi cyfrif am dechnolegau neu brosesau newydd yn benderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol.
- Diweddariad o angen a brys am seilwaith trydan newydd gan gynnwys cynhyrchu, rhwydweithiau, storio a rhyng-gysylltiad yn seiliedig ar ddadansoddiad a dealltwriaeth gyfoes o seilwaith a thechnolegau hysbys.
- Diweddariad o angen am ddewisiadau arall i seilwaith trydan newydd gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, hydrogen, ymateb ochr y galw, seilwaith trydan datganoledig a graddfa fach yn seiliedig ar ddadansoddiad a dealltwriaeth gyfoes o seilwaith a thechnolegau hysbys.
- Diweddariad ar statws storio (cael gwared ar storio trydan, ac eithrio hydro wedi'i bwmpio, o'r drefn NSIP yng Nghymru a Lloegr) a gwybodaeth bellach am rôl ac angen storio wrth ddarparu hyblygrwydd i alluogi datgarboneiddio.
- Diweddariad o'r angen am seilwaith nwy (gan gynnwys nwy naturiol, hydrogen a biomethan) yn seiliedig ar ddadansoddiad a dealltwriaeth gyfoes o seilwaith a thechnolegau hysbys.
- Diweddariad o'r angen am CCS yn seiliedig ar ddadansoddiad diwygiedig a dealltwriaeth o seilwaith a thechnolegau hysbys.
- Diweddariad o'r angen am seilwaith olew newydd yn seiliedig ar ddadansoddiad a dealltwriaeth gyfoes o seilwaith a thechnolegau hysbys.

Rhan 4 - Egwyddorion Asesu

Mae Rhan 4 o EN-1 yn ymdrin ag Egwyddorion Asesu ac yn nodi polisiâu cyffredinol ar gyfer cyflwyno ac asesu ceisiadau sy'n ymwneud â seilwaith ynni. Fe'i diweddarwyd lle bo'n briodol i gyfeirio at yr egwyddorion asesu diweddaraf y dylid eu hystyried ar gyfer prosiectau NSIP. Yn adran 4.1, sy'n nodi polisiâu ac ystyriaethau cyffredinol, mae'r achos angen wedi'i gryfhau, ac mae'r pwysigrwydd o ymgysylltiad cynnar gan ymgeiswyr yn y cam cyn ymgeisio â rhanddeiliaid allweddol, ynghyd â phwysigrwydd dylunio da wedi cael eu pwysleisio.

Mae'r newidiadau yn y testun drafft yn cynnwys:

- Mwy o fanylion ynglŷn ag egwyddorion amgylcheddol.
- Ychwanegwyd adran newydd sy'n ymdrin ag ystyriaethau morol.
- Ychwanegwyd adran newydd sy'n ymdrin ag enillion net bioamrywiaeth.
- Diweddariadau ar ddylunio da.
- Mae'r adrannau CCS a Parod Dal Carbon (CCR) wedi'u diweddarau lle bo'n briodol i alinio â'r polisiâu newydd sy'n dod i'r amlwg yn y meysydd hyn.

- Diweddariadau ar gysylltiadau grid.

Rhan 5 - Effeithiau Generig

Mae Rhan 5 o'r EN-1 drafft yn ymdrin ag Effeithiau Generig ac yn nodi'r effeithiau posibl y gallai unrhyw fath o seilwaith ynni eu cael, sy'n cynnwys effeithiau tirwedd a gweledol. Effeithiau sy'n gyfyngedig i un dechnoleg benodol dim ond yn cael eu cynnwys yn yr NPS perthnasol sy'n benodol i dechnoleg. Diweddarwyd y rhan hon i adlewyrchu'r polisiau diweddaraf a'r dogfennau canllaw sydd ar gael sy'n berthnasol i'r ystod o faterion a gwmpesir.

Mae newidiadau yn y testun drafft yn cynnwys diweddariadau yn y meysydd allweddol canlynol:

- Adran newydd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG).
- Swyddi a chyfleoedd rhanbarthol / lleol o seilwaith newydd.
- Bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.
- Ansawdd aer.
- Newid arfordirol.
- Tirwedd a gweledol.
- Perygl llifogydd.

Cwestiynau

1. A yw'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Ynni Trosfwaol drafft (EN-1) yn darparu gwybodaeth addas i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer caniatâd datblygu (e.e. yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Arolygiaeth Gynllunio, ymgeiswyr) ar gyfer seilwaith ynni o bwys cenedlaethol:
 - a. ar bolisi ynni a hinsawdd y llywodraeth (Rhan 2)?
 - b. ar yr angen a'r brys am rai mathau o seilwaith ynni (Rhan 3)?
 - c. i lywio'r broses o wneud penderfyniadau?
 - d. i lywio archwiliadau?
2. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau a wnaed i EN-1 Rhan 4 ar egwyddorion asesu, gan gynnwys arweiniad newydd ar yr amgylchedd morol, a bioamrywiaeth ac enillion net?
3. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau a wnaed i EN-1 Rhan 5 ar effeithiau generig seilwaith ynni newydd?
4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-1?

NPS Ynni Drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol, Ynni Adnewyddadwy, Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew, Rhwydweithiau Trydan (EN-2 i EN-5)

Mae'r NPSs drafft ar gyfer seilwaith cynhyrchu nwy naturiol, ynni adnewyddadwy, cyflenwad nwy a phiblinellau nwy ac olew, a rhwydweithiau trydan yn nodi fframwaith diwygiedig ar gyfer sut y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gymhwyso polisi'r llywodraeth mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer y mathau o seilwaith y maent yn ei chynnwys.

EN-2 Drafft

Mae EN-2 yn cynnwys seilwaith cynhyrchu nwy naturiol. Rydym wedi diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu ein sefyllfa bresennol o ran cynhyrchu tanwydd ffosil gan gynnwys y rôl hanfodol y mae cynhyrchu nwy naturiol yn parhau i'w chwarae wrth drosglwyddo i sero net, a'r broses o gael gwared ar glo a'r cynhyrchiad o drydan olew ar raddfa fawr.

Mae gan nwy naturiol ran bwysig a pharhaus i'w chwarae yn y dyfodol wrth i ni ddatgarboneiddio ein system ynni. Nid yw hyn yn golygu rhoi'r gorau i'r defnydd o nwy naturiol ond yn golygu mynd i'r afael â'r carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'i ddefnydd. Mae yna nifer o opsiynau gwahanol ar sut i wneud hyn, ond ni allwn ddatgarboneiddio mewn ffordd sy'n peryglu ein diogelwch ynni neu sydd yn arwain at effeithiau ar ddefnyddwyr ar draws y DU.

Bydd angen i'r farchnad nwy esblygu i sicrhau bod y farchnad a signalau rheoliadol cywir yn cael eu darparu i sicrhau'r lefel angenrheidiol o fuddsoddiad a chynhaliath trwy gydol y cyfnod pontio i Sero Net erbyn 2050.

Mae'r NPS drafft hwn yn mynd i'r afael â'r effeithiau, yr ystyriaethau a materion eraill sy'n benodol i seilwaith cynhyrchu nwy naturiol gan gynnwys nwy heb ei ostwng, a nwy gyda CCS. Yn unol â'n huchelgeisiau hydrogen - 5GW erbyn 2030 - rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at gynhyrchu hydrogen yn y naratif rhagarweiniol. Nid ydym, fodd bynnag, wedi ymdrin â hydrogen yn fanwl, gan fod y polisi ynghylch seilwaith hydrogen yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd ein strategaeth hydrogen sydd ar ddod yn rhoi mwy o fanylion am ein dull. Nid yw'r ddogfen bellach yn darparu gwybodaeth am gynhyrchu glo a thrydan olew ar raddfa fawr.

Mae'r adran ar CCR wedi'i diwygio yn unol â'r diweddariadau a wnaed i EN-1 (gweler EN-1 adran 4.7). Rydym yn cynnal galwad ar wahân am dystiolaeth ar sut i esblygu'r polisi hwn, yn unol â'r agenda sero net. Y tu hwnt i hyn, mae'r newid sylweddol i EN-2 wedi bod yn brin.

Cwestiynau

5. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-2 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar ddefnyddio tanwydd ffosil wrth gynhyrchu trydan a'r broses o gael gwared ar glo ac olew ar raddfa fawr yn raddol?
6. A ydych chi'n cytuno â'r ffordd y mae'r EN-2 diwygiedig yn delio â'r potensial sy'n dod i'r amlwg ar gyfer defnyddio hydrogen carbon isel wrth gynhyrchu trydan?
7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-2?

EN-3 Drafft

Mae EN-3 yn cynnwys seilwaith ynni adnewyddadwy. Rydym wedi diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu'r rôl bwysig y bydd ynni adnewyddadwy yn ei chwarae wrth ddatblygu economi carbon isel a chyrraedd targedau sero net y llywodraeth.

Mae'r NPS drafft hwn yn mynd i'r afael ag effeithiau, ystyriaethau a materion eraill sy'n benodol i fomas ac ynni o wastraff (EfW), ynni gwynt alltraeth, storio hydro wedi'i bwmpio, solar ffotofoltaidd a thechnolegau llif llanw. Nid yw bellach yn darparu gwybodaeth benodol am wynt artraeth i adlewyrchu'r cael gwared ar wynt artraeth o'r drefn NSIP yng Nghymru a Lloegr.

Mae newidiadau cyfyngedig wedi cael eu gwneud i'r adrannau ar fomas ac EfW i ddiweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth, cynlluniau cymorth ynni adnewyddadwy a chroesgyfeiriadau.

Mae newidiadau mwy sylweddol wedi cael eu gwneud i'r adran ar wynt alltraeth, yn adlewyrchu targed gwynt alltraeth newydd y llywodraeth o gynhwysedd 40GW erbyn 2030 a datblygiadau yn y dechnoleg, polisi, tystiolaeth wyddonol, a methodoleg arfer gorau dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn benodol, ychwanegwyd adrannau a meini prawf newydd ar gynllunio morol, trawsyriad alltraeth cydgysylltiedig, iawndal amgylcheddol, enillion net amgylcheddol, a'r Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd. Mae'r testun wedi'i ehangu i adlewyrchu rhaglenni ymchwil tymor hir, yn hytrach na phapurau ymchwil penodol a chanllawiau/protocolau newydd, er enghraifft protocol llwybr cebl Ystâd y Goron, canllawiau sŵn tanddwr a phrotocolau amgylchedd hanesyddol morol y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCBs). Mae diweddariadau i derminoleg, deddfwriaeth, a chanlyniad rowndiau prydlesu gwely'r môr diweddar hefyd wedi'u hymgorffori. Mae'r adran bellach yn rhoi mwy o signalau i ddiwydiant ar ystyried yr angen am iawndal amgylcheddol cyn gwneud cais ac i ystyried cydweithredu ag eraill.⁸

Ychwanegwyd adran newydd i ddarparu arweiniad ar storio hydro wedi'i bwmpio (PHS). Mae'r adran newydd hon yn nodi sut mae PHS yn gweithio a nodweddion allweddol datblygiadau PHS; rôl PHS mewn datgarboneiddio; ffactorau dewis safle; ystyriaethau technegol;

⁸ Mae Defra yn ymgynghori ar Ganllawiau Arfer Gorau ar gyfer ystyried Mesurau Iawndal mewn perthynas â datblygiad sy'n effeithio ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn ystod haf 2021.

ystyriaethau o ran sŵn, effeithiau gweledol ac amgylcheddol a lliniaru i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth asesu ceisiadau.

Ychwanegwyd adran newydd i ddarparu arweiniad ar solar ffotofoltaidd. Mae'r adran newydd hon yn nodi sut mae'r dechnoleg yn gweithio yn ogystal â ffactorau dewis safleoedd; ystyriaethau technegol penodol; effeithiau ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth (gan gynnwys y potensial i wneud enillion net); effeithiau tirwedd a gweledol; fflach a llacharedd; ystyriaethau defnydd tir a threftadaeth (gan gynnwys y gofyniad i gynnal rhigoli treial cymesur at ddibenion archeolegol). Mae'r adran hefyd yn egluro y dylid defnyddio cynhwysedd cyfun y gwrthdroyddion wedi'u gosod ar y safle solar (wedi'i fesur yn AC) at ddibenion pennu'r trothwyon cynhwysedd ar gyfer prosiectau solar ffotofoltaidd o dan adran 15 o'r Ddeddf 2008 (sy'n pennu maint prosiectau y gellir eu hystyried ar lefel awdurdod lleol yn hytrach na thrwy lwybr yr NSIP).

Ychwanegwyd adran newydd i ddarparu arweiniad ar ynni llif llanw. Mae'r adran newydd hon yn nodi'r broses gydsynio; dewis safleoedd a ffactorau dylunio; ystyriaethau technegol penodol; a bioamrywiaeth ac effeithiau ecolegol. Mae'n egluro, o ystyried cyflwr cymharol enedigol y diwydiant, nad oes tystiolaeth ddigonol eto i ddarparu arweiniad ar wahân mewn perthynas â physgodfeydd masnachol a physgota, amgylcheddau hanesyddol, mordwyaeth a llongau, olew, nwy, CCS a seilwaith a gweithgareddau alltraeth eraill, yr amgylchedd ffisegol a morlun ac effaith weledol. Mae'n cynnig y dylid ystyried y rhannau perthnasol o'r adran gwynt alltraeth wrth asesu'r effeithiau hyn, o gofio bod araeau llif llanw mawr yn debygol o rannu'r rhan fwyaf o nodweddion gwynt alltraeth o ran yr ystyriaethau hyn.

Cwestiynau

8. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-3 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar seilwaith ynni adnewyddadwy?
9. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau a wnaed i ganllawiau EN-3 ar wynt alltraeth?
10. A ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-3 ar storio hydro wedi'i bwmpio?
11. Ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-3 ar solar ffotofoltaidd?
12. Ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-3 ar ynni llif llanw?
13. Pa newidiadau pellach yn eich barn chi a allai fod yn angenrheidiol i EN-3 a threfn NSIP yn ehangach yn y tymor hwy i gyflawni ein dad-garboniad ac amcanion eraill gan gynnwys cyflawni'r raddfa leoli sydd ei hangen ar gyfer Cyllideb Carbon 6 a Sero Net?
14. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-3?

EN-4 Drafft

Mae EN4 yn cynnwys seilwaith cyflenwi nwy a phiblinellau olew a nwy. Rydym wedi diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu ein sefyllfa bresennol o ran tanwydd naturiol heb ei drin a thanwydd olew crai sy'n dal yn ofynnol ar gyfer gwresogi, coginio a chludo. Mae hyn yn debygol o barhau i fod yn wir dros y degawdau nesaf gan alluogi cyflenwadau ynni diogel, dibynadwy a fforddiadwy wrth i'r DU drawsnewid i ddatrysiadau carbon isel. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd annibynnol wedi cydnabod y galw parhaus am olew a nwy naturiol, gan ei gynnwys ym mhob senario a gynigiodd ar gyfer sut mae'r DU yn cyrraedd ei tharged ar gyfer cyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.

Mae'r NPS drafft hwn yn mynd i'r afael ag effeithiau, ystyriaethau a materion eraill sy'n benodol i fewnforio, storio a throsglwyddo cynhyrchion nwy ac olew. Yn unol â'n huchelgeisiau hydrogen a'n huchelgeisiau CCS rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at seilwaith hydrogen a phiblinellau CCS yn y naratif rhagarweiniol. Nid ydym, fodd bynnag, wedi ymdrin â hydrogen yn fanwl, gan fod y polisi ynghylch seilwaith hydrogen yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd ein strategaeth hydrogen sydd ar ddod yn rhoi mwy o fanylion am ein dull. Nid yw bellach yn darparu gwybodaeth am y cynhyrchiad glo a thrydan olew ar raddfa fawr.

Gwnaed diwygiadau pellach i sicrhau bod y ddogfen yn unol â'r dirwedd reoleiddio gyfredol. Mae hyn yn cynnwys dileu rheolau'r UE ar gyfer y Farchnad Fewnol mewn Nwy Naturiol ac eglurhad o'r trothwy storio ar gyfer Cyfleusterau Mewnforio Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) - o leiaf 43 miliwn metr ciwbig safonol, neu disgwylir cyfradd llif uchaf y cyfleuster fod o leiaf 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y dydd- yn alinio â'r diffiniad yn Neddf 2008.

Cwestiynau

- 15.A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-4 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar seilwaith cyflenwi nwy a phiblinellau nwy ac olew?
- 16.A ydych chi'n cytuno â'r ffordd y mae'r EN-4 diwygiedig yn delio â'r angen sy'n dod i'r amlwg am hydrogen carbon isel?
- 17.A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-4?

EN-5 Drafft

Mae EN-5 yn cynnwys isadeiledd rhwydwaith trydan. Yn benodol, mae'r NPS drafft hwn yn mynd i'r afael â'r effeithiau, yr ystyriaethau a materion eraill sy'n benodol i linellau trydan uwchben sydd wedi'u graddio yn 132 cilofolt (kV) neu'n uwch, ac, mewn rhai amgylchiadau, datblygiadau cysylltiedig fel is-orsafedd a gorsafedd trawsnewid AC/DC.

Rydym wedi diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu pwysigrwydd adeiladu seilwaith rhwydwaith trydan sydd nid yn unig yn cysylltu cynhyrchiad newydd ag atebion hyblygrwydd a chanolau

galw, ond sydd hefyd yn gwarantu cadernid system a diogelwch cyflenwad hyd yn oed wrth i'r system ynni dyfu yn gynyddol gymhleth. Rydym hefyd wedi diwygio'r ddogfen i adlewyrchu'r dirwedd polisi a rheoliadol cyfredol. Ychwanegwyd adran newydd yn ymdrin yn benodol â chwestiwn hawliau a buddion mewn tir, sy'n annog datblygwyr yn gryf i ddilyn hawliau tir parhaol lle bynnag y bo modd, yn hytrach na dibynnu ar ffyrddfreintiau. Bydd y newid hwn yn rhoi sylfaen fwy diogel i'n rhwydweithiau trydan, yn ogystal â sicrhau gwell gwerth i dalwyr biliau trydan yn y tymor hir. Mae arweiniad hefyd wedi'u hegluro ynghylch datblygwyr sy'n dilyn y caffaeliad gorfodol o hawliau mewn tir at ddibenion nid yn unig yr adeiladu ei hun, ond hefyd ar gyfer unrhyw lliniaru a/neu gynlluniau sero net fioamrywiaeth angenrheidiol.

Mae dod â'r ddogfen yn unol â diweddariadau i ofynion rheoliadau amgylcheddol perthnasol wedi cael eu hychwanegu ar ddatblygwyr i ddiogelu ansawdd y pridd o'r tir y maent yn ei ddefnyddio, ac i gymryd mesurau i leihau neu ddileu allyriad ar ffo sylffwr hecsafflorid (SF6) o asedau rhwydwaith i'r awyrgylch. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys arweiniad ar y mathau o gynllun enillion net bioamrywiaeth sydd fwyaf addas ar gyfer natur linellol seilwaith rhwydweithiau trydan, megis ailgysylltu cynefinoedd trwy goridorau gwyrdd. Oherwydd nad yw'r fframwaith rheoleiddio ar allyriadau maes electromagnetig (EMF) o asedau'r rhwydwaith trydan wedi newid yn sylweddol ers i EN-5 gael ei ddynodi gyntaf, ni chynigir unrhyw newidiadau sylweddol yn y maes hwn.

Mae'r lleihad o'r dirwedd ac effaith weledol rhwydweithiau trydan yn bryder allweddol, a gwnaed sawl newid i'r arweiniad ar y pwnc hwn. Mae'r testun yn cydnabod yn ffurfiol y 'Rheolau Horlock' sydd o safon diwydiant ar gyfer dylunio a lleoli is-orsafoddedd ac asedau tebyg, ac yn egluro bod ail-gyflunio, rhesymoli, neu danddaearu seilwaith y rhwydweithiau trydan presennol yn ffurf ddichonadwy o liniaru effaith tirwedd a gweledol, ac un y dylid ei ystyried pan fydd datblygwyr yn cyflwyno cynnig.

Yn fwyaf sylweddol, rydym wedi newid ein polisi ar danddaearu. Er, yn gyffredinol, y dylai dargludyddion uwchben gyda chynhaliad peilon fod yn rhagdybiaeth gychwyn gref ar gyfer llinellau trydan newydd, mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwrthdroi mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yn y meysydd hyn, y rhagdybiaeth gychwyn gref fydd y dylid llinellau newydd gael eu danddaearu, oni bai bod y niwed o wneud hynny yn gorbwyso'r dirwedd a'r budd gweledol. Disgwyliwn i'r newid hwn ddod ag eglurder i'w groesawu i gymunedau a rhanddeiliaid, ac i symleiddio'r broses ymgynghori ar gyfer seilwaith sy'n croesi'r tirweddau pwysig hyn.

Yn olaf, rydym wedi ychwanegu adran newydd sy'n mynd i'r afael â'r angen am fwy o gydgyssylltu wrth ddylunio a darparu seilwaith trawsyrru trydan artraeth ac alltraeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad o ffermydd gwynt alltraeth ac atgyfnerthiadau rhwydwaith. Mae'r Adolygiad Rhwydwaith Trawsyrant Alltraeth (OTNR) dan arweiniad BEIS ar y gweill ar hyn o bryd ac mae'n ceisio sicrhau llawer mwy o gydgyssylltu trwy ei ffrydiau gwaith amrywiol sy'n targedu prosiectau ar wahanol gamau datblygu. Yn y ffrwd gwaith Cyfleoedd Cynnar, mae newidiadau'n cael eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio presennol ac mae datblygwyr prosiectau wrthi'n hedfan, ar gam priodol, yn cael eu hannog i ystyried a allent fanteisio ar y newidiadau hyn trwy ddod yn brosiect braenaru a mabwysiadu cysylltiadau wedi'u gydlynu.

Mae'r ffrwd gwaith Llwybr i 2030 yn targedu prosiectau na chawsant eu dal gan y ffrwd gwaith Cyfleoedd Cynnar, gan gynnwys y rhai yn disgwyl i sicrhau prydles gwely'r môr yn 2021 trwy Rownd Prydlesu 4 Ystâd y Goron a rownd brydlesu Scotwind Ystâd y Goron Yr Alban. Mae'r llyf gwaith hwn yn dwyn ynghyd Ofgem, Gweithredwr Systemau Trydan Grid Cenedlaethol (ESO) a Pherchnogion Trawsyrant Artraeth i ddatblygu dull gwell wedi'i arwain gan gynllun i gysylltu gwynt alltraeth a darparu'r seilwaith cysylltiedig artraeth. Mae'r dull newydd hwn yn ceisio dod â chynllunio rhwydwaith artraeth ac alltraeth ynghyd mewn ffordd fwy cyfannol, hwyluso mwy o fuddsoddiad rhagweladwy, ystyried effeithiau cronus yn well a goresgyn cyfyngiadau posibl cydgysylltiad a arweinir gan brosiect o'r gwaelod i fyny.

Yn olaf, mae'r Ffrwd Gwaith Parhaus yn ceisio dylunio proses newydd o'r diwedd i'r diwedd ar gyfer datblygu a chysylltu gwynt alltraeth, gyda'r nod o gael ei weithredu ar gyfer pob prosiect sy'n dod trwy rowndiau prydlesu gwely'r môr yn y dyfodol. Efallai y bydd angen newid pellach i'r NPSs i ystyried argymhellion o'r OTNR mewn perthynas â'r drefn barhaus pan fydd polisi'n fwy datblygedig.

Bwriad ein newidiadau i EN-5 yw adlewyrchu'r newidiadau polisi hyn sy'n cael eu datblygu, a cheisio cynyddu'r buddion y mae'r polisi sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r OTNR yn anelu at eu cyflawni.

Cwestiynau

18. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-5 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar seilwaith rhwydweithiau trydan?
19. A ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-5 sy'n delio â hawliau a buddiannau tir?
20. A ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-5 gan gymell mwy o gydgysylltu wrth ddylunio a darparu seilwaith trawsyrant trydan sy'n gysylltiedig â gwynt alltraeth?
21. A ydych yn cytuno â'r diwygiadau a wnaed i EN-5 i adlewyrchu blaenoriaethau i leihau effeithiau tirwedd a gweledol seilwaith rhwydwaith trydan newydd gan gynnwys cydnabod y 'Rheolau Horlock' a thanddaearu mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol?
22. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-5?

Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar gyfer EN-1 i EN-5

Cefndir

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf 2008, mae'r llywodraeth wedi cynnal AoS a HRA ar bob un o'r NPSs diwygiedig. Mae'r aseidiadau wedi eu cynnal ar lefel strategol ar gyfer y pum NPS ynni diwygiedig. Nid yw hyn yn cael gwared ar y gofyniad am aseidiadau manwl, ar lefel prosiect yn ystod y cam caniatâd datblygu.

Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS)

Rhaid cynnal AoS cyn i NPS gael eu dynodi. Prif bwrpas AoS yw sicrhau bod yr effeithiau tebygol amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd yr NPS, ar lefel genedlaethol, yn cael eu nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso. Os nodir effeithiau andwyol sylweddol posibl, mae'r AoS yn argymhell opsiynau ar gyfer osgoi neu liniaru effeithiau o'r fath. Yn y modd hwn, mae'r AoS yn helpu i lywio'r proses o baratoi'r NPS ac yn arbennig o ran hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Mae'r AoS yn ymgorffori aseiad yn unol â gofynion y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau SEA). Mae'r Rheoliadau yn anelu at lefel uchel o amddiffyniad amgylchedd ac i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Maent yn berthnasol i rai cynlluniau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'r AoS yn ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol yn yr un modd ag y mae'n ofynnol i effeithiau amgylcheddol gael eu hasesu gan Rheoliadau SEA.

Mae pob adroddiad AoS yn cynnwys:

- Trafodaeth o'r dewisiadau eraill i'r NPSs drafft.
- Arfarniad o gynaliadwyedd ac effeithiau amgylcheddol y cynigion yn yr NPSs drafft.
- Argymhellion allweddol.
- Gwybodaeth am fonitro a lliniaru effeithiau sylweddol.

Fel rhan o'r broses AoS, ceisiodd y llywodraeth farn gan gyrff ymgynghori statudol trwy ymgynghoriad ar gwmpas y fframwaith AoS⁹. Caewyd yr ymgynghoriad hwn ar 6 Mai 2021. Mae ymatebion wedi cael eu hystyried wrth gwblhau'r dull AoS.

Mae'r cwmni ymgynghori amgylcheddol arbenigol Atkins wedi cwblhau'r AoS ar ran y llywodraeth.

Dylai ymatebwyr gyfeirio at yr Adroddiad AoS, gan gynnwys y crynodeb annhechnegol, wrth ymateb i'r cwestiynau ymgynghori isod.

Cwestiynau

23.A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) ar gyfer yr NPSs drafft canlynol:

- a. Yr NPS drafft Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1)?
- b. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol (EN-2)?
- c. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3)?
- d. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4)?
- e. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)?

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae'r HRA yn ymgorffori asesiad yn unol â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd Morol a Rhywogaethau Alltraeth 2017. Pwrpas yr asesiad yw ystyried effeithiau ar safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd dynodedig, o adeiladu a gweithredu seilwaith ynni newydd yn unol â'r polisiau a'r cynigion a nodir yn yr NPS.

Nid oes unrhyw safleoedd, dyraniadau nac unrhyw gydran ofodol benodol i'r NPSs. Felly, mae'r asesiadau yn canolbwyntio ar gynnwys y polisi ym mhob dogfen.

Mae pob adroddiad HRA yn cynnwys:

- Adnabod ac asesu effeithiau'r NPS drafft ar safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd dynodedig, gan gynnwys lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.
- Trafodaeth ar y dewisiadau eraill i'r NPSs drafft fel y nodir yn yr AoS.

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/energy-national-policy-statements-review-scope-of-appraisal-of-sustainability-and-approach-to-habitats-regulations-assessment>

- Trafodaeth o Resymau Gorfodol o Ddiystyru Budd y Cyhoedd (IROPI).
- Argymhellion Allweddol.

Fel rhan o'r broses HRA, ceisiodd y llywodraeth farn arbenigwyr technegol statudol a pherthnasol trwy ymgynghoriad ar gwmpas methodoleg yr HRA¹⁰. Caewyd yr ymgynghoriad hwn ar 6 Mai 2021. Mae ymatebion wedi cael eu hystyried wrth gwblhau'r dull HRA.

Mae'r cwmni ymgynghori amgylcheddol arbenigol Atkins wedi cwblhau'r HRA hwn ar ran y llywodraeth.

Dylai ymatebwyr gyfeirio at Adroddiad HRA wrth ymateb i'r cwestiynau ymgynghori isod.

Cwestiynau

24. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r HRA ar gyfer yr NPSs drafft canlynol:
- a. Yr NPS drafft Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1)?
 - b. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol (EN-2)?
 - c. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3)?
 - d. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4)?
 - e. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)?

¹⁰ <https://www.gov.uk/government/publications/energy-national-policy-statements-review-scope-of-appraisal-of-sustainability-and-approach-to-habitats-regulations-assessment>

Sylwadau eraill

Mae'r llywodraeth yn croesawu barn ar unrhyw agwedd arall ar yr NPSs drafft hyn neu ddogfennau cysylltiedig nad yw'r cwestiynau blaenorol yn cwmpasu. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ymresymiad a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiadau syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Cwestiynau

25. Er mwyn cynnal cysondeb a sicrhau trosglwyddiad effeithlon i'r NPS wedi'i ddiweddarau, mae'r drafftiau'n mabwysiadu'r un strwythur â'r gyfres NPS bresennol. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?
26. Mae'r NPS yn cyfeirio'r darlennydd at y polisi a'r rheoliadau ychwanegol perthnasol y dylid eu hadlewyrchu wrth gyflwyno ac ystyried ceisiadau am ganiatâd datblygu. Gellid diweddarau neu newid canllawiau o'r fath o bryd i'w gilydd. Sut allwn ni wella'r ffordd y mae'r NPS yn cyfeirio at ganllawiau presennol ac yn y dyfodol?
27. A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr NPSs ynni drafft neu eu dogfennau cysylltiedig nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol?

Archwiliad Seneddol

Yn ogystal ag ymarfer ymgynghori cyhoeddus, bydd NPSs drafft EN-1 i EN-5 hefyd yn ddarostyngedig i archwiliad Seneddol. Mae'r Ddeddf 2008 yn ofyn i'r llywodraeth osod bob NPS drafft o flaen y Senedd, ac ymateb i argymhellion Pwyllgor o unai Dŷ neu'r penderfyniad o naill Dŷ a wnaed o fewn cyfnod penodol.

Camau nesaf

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 29 Tachwedd 2021.

Bydd y llywodraeth yn ystyried ymatebion y mae'n eu derbyn i'r ymgynghoriad, ac allbynnau o archwiliad Seneddol. Yna bydd y llywodraeth wedyn yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, ac yn adolygu'r NPSs ynni drafft yn ôl yr angen.

Unwaith byddent yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol ("dynodedig") bydd yr NPSs yma yn brif ystyriaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ac Arolygiaeth Gynllunio pan fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer ynni o bwys cenedlaethol.

Cwestiynau ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y cwestiynau ymgynghori a restrir isod. Fodd bynnag, mae ymatebwyr yn rhydd i wneud sylwadau eraill, a bydd y llywodraeth yn ystyried y rhain lle bo'n briodol. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ymresymiad a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiadau syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

NPS Ynni Trosfwaol drafft (EN-1)

1. A yw'r NPS Ynni Trosfwaol drafft (EN-1) yn darparu gwybodaeth addas i'r rhai sy'n ymwneud a'r broses ar gyfer caniatâd datblygu (e.e. Ysgrifennydd Gwladol, yr Arolygiaeth Gynllunio, ymgeiswyr) ar gyfer seilwaith ynni o bwys cenedlaethol.
 - a. ar bolisi ynni a hinsawdd y llywodraeth (Rhan 2)?
 - b. ar yr angen a'r brys am rai mathau o seilwaith (Rhan 3)?
 - c. i lywio'r broses o wneud penderfyniadau?
 - d. i lywio archwiliadau?
2. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau a wnaed i EN-1 Rhan 4 ar egwyddorion asesu, gan gynnwys canllawiau newydd ar yr amgylchedd morol, a bioamrywiaeth ac enillion net?
3. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau a wnaed i EN-1 Rhan 5 ar effeithiau generig o seilwaith ynni newydd?
4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-1?

EN-2 Drafft

5. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-2 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar ddefnyddio tanwydd ffosil wrth gynhyrchu trydan a'r broses o gael gwared ar glo ac olew ar raddfa fawr yn raddol?
6. A ydych chi'n cytuno â'r ffordd y mae'r EN-2 diwygiedig yn delio â'r potensial sy'n dod i'r amlwg ar gyfer defnyddio hydrogen carbon isel wrth gynhyrchu trydan?
7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-2?

EN-3 Drafft

8. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-3 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar seilwaith ynni adnewyddadwy?
9. A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau a wnaed i ganllawiau EN-3 ar wynt alltraeth?
10. A ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-3 ar storio hydro wedi'i bwmpio?

11. Ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-3 ar solar ffotofoltaidd?
12. Ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-3 ar ynni llif llanw?
13. Pa newidiadau pellach yn eich barn chi a allai fod yn angenrheidiol i EN-3 a threfn NSIP yn ehangach yn y tymor hwy i gyflawni ein dad-garboniad ac amcanion eraill gan gynnwys cyflawni'r raddfa leoli sydd ei hangen ar gyfer Cyllideb Carbon 6 a Sero Net?
14. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-3?

EN-4 Drafft

15. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-4 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar seilwaith cyflenwi nwy a phiblinellau nwy ac olew?
16. A ydych chi'n cytuno â'r ffordd y mae'r EN-4 diwygiedig yn delio â'r angen sy'n dod i'r amlwg am hydrogen carbon isel?
17. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-4?

EN-5 Drafft

18. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau i EN-5 (mewn cyfuniad ag EN-1) yn darparu polisi cynllunio clir i gefnogi safbwynt y llywodraeth ar seilwaith rhwydweithiau trydan?
19. A ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-5 sy'n delio â hawliau a buddiannau tir?
20. A ydych chi'n cytuno â'r arweiniad newydd a ychwanegwyd at EN-5 gan gymell mwy o gydgyssylltu wrth ddylunio a darparu seilwaith trawsyriant trydan sy'n gysylltiedig â gwynt alltraeth?
21. A ydych yn cytuno â'r diwygiadau a wnaed i EN-5 i adlewyrchu blaenoriaethau i leihau effeithiau tirwedd a gweledol o seilwaith rhwydwaith trydan newydd gan gynnwys cydnabod y 'Rheolau Horlock' a thanddaearu mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol?
22. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y diwygiadau i EN-5?

Asesiad o Gynaliadwyedd (AoS) EN-1 i 5

23. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r AOS ar gyfer y NPSs drafft canlynol:
 - a. Yr NPS drafft Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1)?
 - b. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol (EN-2)?
 - c. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3)?
 - d. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4)?

- e. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)?

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd EN-1 i 5

24. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r HRA ar gyfer yr NPSs drafft canlynol:

- a. Yr NPS drafft Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1)?
- b. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Nwy Naturiol (EN-2)?
- c. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3)?
- d. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4)?
- e. Yr NPS drafft ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)?

Sylwadau Eraill

25. Er mwyn cynnal cysondeb a sicrhau trosglwyddiad effeithlon i'r NPS wedi'i ddiweddarau, mae'r drafftiau'n mabwysiadu'r un strwythur â'r gyfres bresennol o NPS. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?
26. Mae'r NPS yn cyfeirio'r darlennydd at y polisi a'r rheoliadau ychwanegol perthnasol y dylid eu hadlewyrchu wrth gyflwyno ac ystyried ceisiadau am ganiatâd datblygu. Gellid diweddarau neu newid canllawiau o'r fath o bryd i'w gilydd. Sut allwn ni wella'r ffordd y mae'r NPS yn cyfeirio at ganllawiau presennol ac yn y dyfodol?
27. A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd o'r NPSs ynni drafft neu eu dogfennau cysylltiedig nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol?

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/beis

Os ydych angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, e-bostiwch enquiries@beis.gov.uk. Os gwelwch yn dda, dywedwch wrthym ba fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os byddwch yn dweud pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.